**Efa Gruffudd Jones**
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Pwyllgor yr Economi, Ynni a Chysylltedd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

SeneddEconomi@senedd.cymru

Annwyl Gadeirydd

**Blaenoriaethau ar gyfer Pwyllgor yr Economi, Ynni a Chysylltedd**

Diolch am y cyfle i gyfrannu at yr ymgynghoriad hwn. Mae Strategaeth Cymraeg 2050 a datganiadau diweddar Llywodraeth Cymru (y Llywodraeth) yn pwysleisio'r angen i integreiddio ystyriaethau ieithyddol gyda pholisïau economaidd, tai, cynllunio, ynni a chysylltedd. Fel mae fy Adroddiad 5 Mlynedd ar Sefyllfa'r Gymraeg yn dadlau, mae'r ffactorau hyn yn dylanwadu ar allu pobl i fyw, gweithio a defnyddio'r Gymraeg yn eu cymunedau, ac felly mae ganddynt effaith uniongyrchol ar gynaliadwyedd hirdymor yr iaith. Mae'r iaith Gymraeg hefyd yn cyfrannu'n uniongyrchol at ffyniant cymunedau, datblygiad economaidd, sgiliau, technoleg ac atyniad Cymru ar y llwyfan rhyngwladol.

Yn sgil hyn, credaf y dylai'r Pwyllgor wrth ei waith ystyried i ba raddau y mae'r Llywodraeth yn llwyddo i brif-ffrydio'r Gymraeg ar draws ei pholisïau economaidd, ynni a chysylltedd, ac i ba raddau y mae'r polisïau hynny'n cyfrannu at gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith.

Ar sail canfyddiadau fy adroddiad a gwaith diweddar y Comisiwn Cymunedau Cymraeg, awgrymaf fod y meysydd canlynol yn haeddu sylw penodol gan y Pwyllgor:

## 1. Economi a chynaliadwyedd cymunedau Cymraeg

Mae cyflwr economaidd ardaloedd sydd â dwysedd uwch o siaradwyr Cymraeg yn ffactor allweddol yn nyfodol y Gymraeg. Mae cyfleoedd economaidd lleol yn galluogi pobl ifanc i aros yn eu cymunedau ac i gyfrannu at fywyd cymdeithasol ac ieithyddol yr ardaloedd hynny.

**Comisiynydd y Gymraeg**
Uned 2, Bloc C
Doc Fictoria
Ffordd Balaclafa
Caernarfon
LL55 1TH

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg**

comisiynyddygymraeg.cymru

**Welsh Language Commissioner**
Unit 2, Block C
Victoria Dock
Balaclafa Way
Caernarfon
LL55 1TH

0345 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.wales
**Correspondence welcomed in Welsh and English**

welshlanguagecommissioner.wales

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Dylai'r Pwyllgor roi ffocws ar:

- Sut mae’r Llywodraeth yn gweithredu argymhellion y Comisiwn Cymunedau Cymraeg yng nghyd-destun datblygu economaidd.
- Effaith strategaethau a chyllidebau datblygu economaidd ar gymunedau Cymraeg, gan gynnwys y gwaith o sefydlu Asiantaeth Datblygu Cenedlaethol newydd, gwaith byrddau uchelgais Cymru, a datblygiad rhaglen Arfor.
- Y defnydd o asesiadau effaith ieithyddol wrth ddatblygu polisïau a rhaglenni economaidd.
- Y berthynas rhwng twf economaidd, cyflogaeth a chynaliadwyedd ieithyddol.
- Y graddau mae trafnidiaeth a chysylltedd digidol yn dylanwadu'n uniongyrchol ar allu pobl i fyw a gweithio mewn cymunedau Cymraeg.
- Y broses o weithredu Strategaeth Datblygu Gwledig a phwysigrwydd twf yr economi wledig i gymunedau Cymraeg eu hiaith.

## 2. Rôl y farchnad lafur a chyflogaeth mewn datblygu gweithleoedd Cymraeg

Mae llawer o bobl yn datblygu eu sgiliau Cymraeg drwy'r system addysg ond yn colli cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn y gweithle. Yn ei adroddiad Cyrraedd Pob Cymuned, Cryfhau’r Gymraeg mae'r Comisiwn Cymunedau Cymraeg yn dangos bod angen creu amgylcheddau lle mae pobl yn teimlo'n hyderus i ddefnyddio'r Gymraeg wrth weithio ac wrth gymdeithasu. Mae’r gweithle yn un o'r prif feysydd lle gellir cynyddu defnydd y Gymraeg, yn enwedig mewn ardaloedd â dwysedd is o siaradwyr. Mae sicrhau gweithleoedd sy'n cefnogi defnydd o'r Gymraeg yn allweddol i wireddu nodau Cymraeg 2050, trwy sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gweld a'i hyrwyddo fel sgil economaidd gwerthfawr sy'n cyfrannu at ffyniant unigolion, busnesau a chymunedau.

Dylai'r Pwyllgor graffu ar:

- Cyfraniad sefydliadau sy'n derbyn cyllid cyhoeddus at hyrwyddo a normaleiddio’r defnydd o'r Gymraeg.
- Sut mae cyflogwyr mawr preifat yn rhoi cyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg mewn gweithleoedd.
- Sut mae’r sector addysg a hyfforddiant yn ymateb i anghenion economaidd Cymru, ac fel rhan o hynny yn hyrwyddo'r Gymraeg fel sgil cyflogadwyedd. Fel rhan o hyn dylid ystyried ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gynnal archwiliad o anghenion sgiliau Cymru.
- Sut mae polisïau economaidd a datblygu'r gweithlu'n cyfrannu at gynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.
- Y defnydd o'r Gymraeg mewn sectorau twf strategol, gan gynnwys ynni, technoleg, amaethyddiaeth, a gweithgynhyrchu uwch.

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

## 3. Ynni a phrosiectau seilwaith strategol

Mae Cymru yn wynebu cyfnod o newid sylweddol ym mholisi ynni, gyda buddsoddiad cynyddol mewn prosiectau ynni adnewyddadwy a seilwaith cysylltiedig. Gall y datblygiadau hyn effeithio'n uniongyrchol ar gymunedau Cymraeg eu hiaith, drwy eu heffaith economaidd leol, cyfleoedd cyflogaeth a'u dylanwad ar gynaliadwyedd cymunedol.

Wrth graffu ar y maes hwn, rydym yn annog y Pwyllgor i roi sylw i:

- Effaith prosiectau ynni mawr ar ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol dwysedd uwch a sut mae modd integreiddio agenda net sero gyda gweledigaeth y Llywodraeth dros y Gymraeg.
- Cyfleoedd i ddatblygu gweithleoedd Cymraeg yn y sector ynni.
- Y modd y mae buddion economaidd prosiectau yn cael eu rhannu gyda chymunedau lleol a sut mae hynny yn cyfrannu at flaenoriaethau Cymraeg 2050.

## 4. Technoleg, arloesi a deallusrwydd artiffisial

Mae technoleg ddigidol a deallusrwydd artiffisial yn debygol o chwarae rhan gynyddol bwysig yn nyfodol y Gymraeg, yn enwedig o ran mynediad at wasanaethau cyhoeddus, cyfranogiad digidol, technoleg iaith ac amlygrwydd y Gymraeg mewn rhyngweithiadau ar-lein bob dydd.

Dylai'r Pwyllgor ystyried:

- Sut mae strategaethau arloesi Cymru yn cefnogi datblygiad technoleg Gymraeg.
- Effaith deallusrwydd artiffisial ar allu dinasyddion i ddefnyddio'r Gymraeg yn ddigidol.
- Cyfleoedd i sicrhau bod y Gymraeg yn rhan lawn o ddatblygiadau technolegol yn y dyfodol.

## 5. Defnyddio cyllid cyhoeddus i gefnogi'r Gymraeg

Mae grantiau, contractau a buddsoddiad cyhoeddus yn cynnig cyfle pwysig i gefnogi amcanion polisi'r Gymraeg.

Felly, dylai'r Pwyllgor roi sylw i:

- Sut mae gofynion sy'n ymwneud â'r Gymraeg yn cael eu hadlewyrchu mewn trefniadau caffael a chyllido.
- Sut mae sefydliadau sy'n derbyn arian cyhoeddus yn cyfrannu at gynyddu defnydd o'r Gymraeg.
- Y defnydd o feini prawf gwerth cymdeithasol sy'n cynnwys canlyniadau ieithyddol.

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

**6. Ymestyn safonau'r Gymraeg i'r sector preifat**

Ymrwymodd maniffesto'r Llywodraeth i ymestyn Safonau'r Gymraeg i rannau o'r sector breifat, gan gynnwys i fusnesau cyfathrebiadau, cyfleustodau, banciau, meysydd parcio ac archfarchnadoedd. Er na fyddai'r broses o ymestyn y safonau yn disgyn yn uniongyrchol o dan gwmpas eich Pwyllgor, mae'n bosib iawn y byddai craffu ar effaith posib cyflwyno'r safonau i'r sector preifat yn berthnasol i'ch gwaith. Mae gen i dîm arbenigol sydd yn gweithio gyda busnesau'r sector preifat i'w hannog a'u cefnogi i ddarparu mwy o wasanaethau Cymraeg. Bydd rhai sy'n cyrraedd trothwy derbyniol yn derbyn cydnabyddiaeth swyddogol y Cynnig Cymraeg. Buaswn felly yn falch iawn o gael cyfrannu at unrhyw waith craffu ar y mater yma.

Er bod llawer o'r materion uchod o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, mae'n bwysig cydnabod bod dyfodol y Gymraeg yn dibynnu ar weithredu cydgysylltiedig ar draws nifer o feysydd polisi. Byddwn felly'n annog y Pwyllgor i gydweithio â phwyllgorau perthnasol eraill y Senedd wrth ystyried effaith penderfyniadau economaidd, ynni a chysylltedd ar y Gymraeg a'i chymunedau.

Gobeithiaf fod y sylwadau uchod o ddefnydd wrth i chi gynllunio gwaith y Pwyllgor i'r dyfodol. Dymunaf bob llwyddiant i chi yn y gwaith hwnnw a byddwn yn falch o gyfrannu ato.

Yn gywir

**Efa Gruffudd Jones**

Comisiynydd y Gymraeg